CYLCHLYTHYR 04.02.24

Ein Senedd Ni



Diolch i gynrychiolwyr ein Cyngor Ysgol am gyfrannu'n wych yn y sesiwn "Ein Senedd Ni" wythnos ddiwetha' mewn trafodaeth ar sut i hybu Cymreictod o fewn y gymuned. Sefydlwyd Ein Senedd Ni i gael mewnbwn cynrychiolwyr o gynghorau bob ysgol Gynradd Gymraeg yn y ddinas, gyda'r nod o lywio polisïau ac arwain ar ymgyrch amrywiol sydd yn effeithiau ar fywyd plant y ddinas.





Ein Hystafell Gymunedol

Rydym wedi sefydlu ystafell o fewn yr ysgol sydd wedi ei neilltuo ar eich cyfer chi, ein rhieni, a'r gymuned. Bydd sawl pwrpas i'r gofod:

- man cyfarfod anffurfiol i rieni gyfarfod a chael coffi
- rhywle lle gallwch ddod i siarad â staff yr ysgol neu weithwyr proffesiynol am eich plant dosbarthiadau addysg i oedolion megis dysgu Cymraeg
- cyngor rhianta
- sut i helpu eich plentyn yn yr ysgol,
- Pantry bwyd, dillad (gan gynnwys gwisg ysgol ar gyfer Coed–y–Gof a Phlasmawr) eitemau babanod/deunyddiau glanhau ac ymolchi ac ati
- sesiynau aros a chwarae.

Os hoffech ddefnyddio'r ystafell ar gyfer bore coffi neu gyfarfod rhieni, cysylltwch â ni. Croesawn hefyd eich syniadau ar weithgareddau eraill y gallem eu gwneud i adeiladu a chefnogi cymuned ein hysgol.

Rydym yn awyddus i ddatblygu Ysgol Coed–y–Gof i fod yn rhywle sy'n chwarae rhan werthfawr yn eich bywydau a bywydau eich plant, o fewn a thu hwnt i'r dosbarth. Rydym hefyd yn chwilio am enw ar gyfer ein hystafell gymunedol a hoffem i chi gael help! E–bostiwch unrhyw awgrymiadau i ysgolcoedygof@caerdydd.gov.uk.



DYDDIADAU PWYSIG

06.02.24	Twrnament pêl–droed cymysg yr Urdd
08.02.24	Dydd Miwsig Cymru – plant i wisgo dillad di
09.02.24	HMS Clwstwr Plasmawr – ysgol ar gau i ddisgyblion
12–16.02.24	HANNER TYMOR Clwb Bwrlwm yn yr ysgol Sesyinau chwarae a gweithgareddau **AM DDIM** gyda Menter Caerdydd. 10:30 – 12:30, Llun–Iau
20.02.24	Pêl–droed merched yr Urdd
20.02.24	Cyfarfod Llywodraethwyr
22.02.24	Noson Ffilm Ffrindiau Coed–y–Gof
23.02.24	Gweithdy niwroamrywiaeth – ystafell gymuned 2– 3yp
28.02.24	Eisteddfod Ysgol
29.02.24	AGM Pwyllgor Ffrindiau Coed–y–Gof
02.03.24	Eisteddfod yr Urdd, Cylch Gorllewin Caerdydd
04.03.24	Eisteddfod Dawns yr Urdd – Ysgol Fitzalan
09.03.24	Eisteddfod yr Urdd, Rhanbarth Caerdydd a'r Fro
25.03–05.04.24	GWYLIAU PASG
11.04.24	Rygbi tag Merched 5&6, a chymysg bl 3& 4, Parc Trelai
27.05.24	GWYLIAU HANNER TYMOR
22.07.24	HMS – ysgol ar gau i ddisgyblion